Adroddiad ar

Ysgol Maes Y Felin

Pen-Y-Maes
Treffynnon
Sir y Fflint
CH8 7EN

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Maes Y Felin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Maes Y Felin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir y Fflint |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 284 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 244 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 54.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 19.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 9.92% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Maes Y Felin yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn helpu creu awyrgylch digynnwrf lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n mynychu dosbarth y ganolfan adnoddau.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn creu amgylcheddau dysgu pwrpasol sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn weithredol yn eu dysgu. Yn y dosbarthiadau iau, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd agored i ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n hyrwyddo gwaith tîm a datrys problemau. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i archwilio a chreu, fel adeiladu strwythurau neu ddatblygu amgylcheddau chwarae dychmygus. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a difyr, ac mae diddordebau disgyblion iau yn aml yn helpu ffurfio'r hyn y maent yn ei ddysgu. At ei gilydd, nid yw disgwyliadau athrawon ar gyfer disgyblion yn ddigon uchel yn gyson, ac nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn darparu her ddigonol ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Maent yn elwa ar amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith a chyfleoedd rheolaidd i drafod eu syniadau gyda disgyblion eraill. Mae disgyblion iau yn meithrin medrau darllen cynnar cryf ac yn mwynhau gwrando ar storïau, a'u rhannu, tra bod disgyblion hŷn yn darllen ystod eang o destunau gyda hyder cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda dros gyfnod, er nad yw disgwyliadau ar gyfer llawysgrifen a chyflwyniad bob amser yn ddigon uchel. Mewn mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin medrau rhif cadarn ac yn defnyddio gwahanol ddulliau i ddatrys problemau, ond nid yw disgyblion hŷn bob amser yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws meysydd dysgu eraill.

Mae arweinwyr yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae staff yn darparu cymorth ac ymyriadau targedig lle mae angen, gan helpu disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau cryf â rhieni a'r gymuned, sy'n cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn ac wedi helpu gwella presenoldeb.

Er bod arweinwyr yn adolygu gwaith yr ysgol yn rheolaidd ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad staff, mae blaenoriaethau'r ysgol yn rhy eang, sy'n arafu cyflymdra'r gwelliant. Mae llywodraethwyr yn deall yr ysgol yn dda ac yn cefnogi ei gwaith. Mae eu rôl o ran casglu tystiolaeth uniongyrchol yn datblygu'n addas.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Miniogi blaenoriaethau gwella i sicrhau bod pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn deall eu rôl mewn ysgogi gwelliant

A2 Sicrhau bod gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau cyson uchel ac yn herio disgyblion yn briodol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Maes Y Felin wedi sefydlu cymuned ysgol groesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn creu amgylchedd digynnwrf ac anogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at ei gilydd. Mae staff yn rhoi pwyslais uchel ar les disgyblion ac yn modelu gwaith tîm yn effeithiol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u gwahanol fannau cychwyn, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), disgyblion yn nosbarth y ganolfan adnoddau, a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae staff yn creu amgylcheddau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi annibyniaeth disgyblion ac yn ysgogi eu diddordeb. Yn y dosbarthiadau iau, mae staff yn defnyddio'r ardaloedd helaeth yn yr awyr agored yn dda, gan gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n annog disgyblion i ymchwilio, cydweithio a datrys problemau. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweithio gyda'i gilydd i greu amgylcheddau chwarae dychmygus.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion iau yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddylanwadu ar eu dysgu, ac mae eu diddordebau yn aml yn helpu ffurfio'r modd y mae testunau neu themâu yn datblygu yn y dosbarth. Mae disgyblion o bob oedran yn datblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol, ac mae cwricwlwm sy'n adlewyrchu eu hardal leol yn dda yn ennyn eu diddordeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o dreftadaeth Gymreig trwy brosiectau fel astudio cestyll ac archwilio gwaith archeolegol mewn parc gwledig lleol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn modelu patrymau Cymraeg yn dda ac yn annog disgyblion i ateb gan ddefnyddio ymadroddion syml. Mae disgyblion iau yn ymateb yn dda i gyfarchion syml a phatrymau iaith dyddiol. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau cynyddol gymhleth yn Gymraeg.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae staff yn darparu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith ac yn fodelau rôl iaith cadarnhaol. Maent yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd trwy weithgareddau cydweithredol a thrafodaethau pwrpasol. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i gyfathrebu'n hyderus a chydweithio'n dda â'u cyfoedion wrth gwblhau tasgau. Mae disgyblion iau yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus trwy weithgareddau dysgu strwythuredig sy'n datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar storïau ac yn mwynhau ymuno â rhannau cyfarwydd o destunau. Ar draws yr ysgol, mae staff yn hyrwyddo diwylliant darllen cryf ac mae

disgyblion yn elwa ar ymweliadau rheolaidd â'r llyfrgell leol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion hŷn yn darllen ystod eang o destunau â rhuglder cynyddol.

Mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae disgyblion iau yn cofnodi eu dysgu yn anffurfiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu at ystod addas o ddibenion. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau athrawon ar gyfer llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn ddigon uchel yn gyson.

Mae dull yr ysgol o addysgu mathemateg yn un systematig a chynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio'u medrau rhif a mesur cynnar yn dda trwy archwilio, stori a chwarae. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, maent yn defnyddio ystod o ddulliau yn y pen a dulliau ysgrifenedig yn llwyddiannus. Mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau buddiol sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau digidol yn gynyddol. Mae disgyblion iau yn defnyddio dyfeisiau digidol yn bwrpasol, er enghraifft wrth raglennu dyfeisiau i lywio drysfa neu wrth ymarfer medrau rhif. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau digidol yn dda trwy eu testunau; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio meddalwedd modelu tri dimensiwn yn llwyddiannus i ail-greu ffosydd yr Ail Ryfel Byd.

Mae ymagwedd yr ysgol at gefnogi disgyblion ag ADY yn strategol ac yn effeithiol. Mae arweinwyr yn nodi anghenion disgyblion yn briodol ac yn monitro'u cynnydd yn effeithiol. Maent yn cydweithio â staff i greu cynlluniau unigol, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei deilwra'n dda i anghenion penodol disgyblion.

Mae staff yn nosbarth y ganolfan adnoddau yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu amgylchedd anogol a chefnogol sy'n diwallu eu hanghenion yn dda. Ar draws yr ysgol, mae staff cymorth medrus yn cyflwyno ymyriadau targedig i gefnogi medrau llythrennedd a mathemategol disgyblion. Maent yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn addasu darpariaeth yn unol â hynny. Mae'r ysgol wedi datblygu dosbarth anogaeth effeithiol sy'n helpu ychydig o ddisgyblion i reoleiddio eu hemosiynau yn llwyddiannus ac ailymgysylltu â'u dysgu.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu lefelau priodol o gymorth a her i ddisgyblion yn ystod gwersi. Maent yn defnyddio amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant clir yn effeithiol, sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei ddysgu a sut i wella'u gwaith. Mae athrawon hefyd yn dechrau darparu adborth buddiol sy'n cefnogi disgyblion yng nghamau nesaf eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau ar gyfer disgyblion yn gyson uchel, ac nid yw tasgau y mae athrawon yn eu darparu bob amser yn ddigon heriol nac yn

ymestyn dysgu disgyblion. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae tuedd i addysgu gael ei or-gyfarwyddo, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn casglu gwybodaeth asesu yn rheolaidd ac mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd i werthuso'r wybodaeth hon. Mae'r dull systematig hwn yn cefnogi gwelliannau ym medrau darllen cynnar disgyblion yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn ofalus ac yn gweithio'n agos gyda rhieni a'r awdurdod lleol i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd. Mae presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.

### Cysylltiadau effeithiol â theuluoedd a'r gymuned

Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau effeithiol â theuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae rhieni'n elwa ar gyfleoedd i fynychu dosbarthiadau dysgu oedolion ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i weld gwaith eu plentyn. Mae cysylltiadau cryf â rhieni wedi bod yn hanfodol i wella presenoldeb disgyblion. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o brosiectau cymunedol buddiol, fel gweithgareddau pontio'r cenedlaethau gydag ysbyty lleol, sy'n cyfoethogi eu dysgu ac yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn yn y gymuned ymhellach.

Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn grwpiau arweinyddiaeth disgyblion ac yn cymryd eu rolau o ddifri. Maent yn teimlo y gwrandewir ar eu safbwyntiau, ac yn hyderus bod arweinwyr yn gweithredu arnynt. Mae disgyblion iau a'r rhai yn nosbarth y ganolfan adnoddau yn cael cyfleoedd cyfyngedig i ymgymryd â rolau arwain.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o weithgareddau i adolygu gwaith yr ysgol, yn cynnwys teithiau dysgu a gwrando ar ddisgyblion. Mae'r prosesau hyn yn helpu arweinwyr i nodi meysydd i'w datblygu, fel gwella'r her i ddisgyblion mwy abl a chodi disgwyliadau ar gyfer cyflwyniad gwaith disgyblion. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau'r ysgol yn aml yn eang ac nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon clir yr agweddau sydd angen eu gwella fwyaf. O ganlyniad i hyn, mae arweinwyr yn rhoi newidiadau ar waith yn araf ac nid ydynt bob amser yn cyfleu blaenoriaethau yn ddigon clir i staff. Mae proffil uchel i ddysgu proffesiynol yn yr ysgol, ac mae staff yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu harfer, yn enwedig o ran cefnogi disgyblion ag ADY. Serch hynny, oherwydd bod blaenoriaethau gwella yn amrywiol, nid yw dysgu proffesiynol bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar staff, neu'n cael ei rannu'n effeithiol â nhw.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda trwy ymweliadau rheolaidd a gwybodaeth a ddarperir gan arweinwyr. Mae'n ddyddiau cynnar o ran eu rôl yn casglu tystiolaeth uniongyrchol i werthuso gwaith yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026